Dros ddysgwyr, dros Gymru
For learners, for Wales

Ysgol Gynradd Danygrraig
Ysgol Street
Port Tennant
SA1 8LE

23/06/2026

Annwyl arweinwyr a staff

**Ymweliad interim:** Mehefin 2026

Ymwelodd tîm o arolygwyr ag Ysgol Gynradd Danygraig yn ddiweddar i ystyried cynnydd mewn perthynas â dau argymhelliad o'r arolygiad craidd blaenorol. Manteisiodd y tîm arolygu ar y cyfle i arsylwi addysgu a dysgu, siarad â disgyblion a staff, ystyried dogfennaeth ac edrych ar samplau o waith disgyblion. Isod, ceir crynodeb o ganfyddiadau'r ymweliad.

## Ffocws yr ymweliad

### Darparu cyfleoedd i ddisgyblion ehangu eu gwybodaeth am lyfrau ac awduron a datblygu cariad at ddarllen

- Mae diwylliant darllen cadarnhaol a chryf ar draws yr ysgol. Mae disgyblion a staff yn siarad yn frwdfrydig am ddarllen ac yn ei werthfawrogi fel rhan hanfodol o fywyd y tu mewn a'r tu allan i'r ysgol.

- Mae disgyblion o bob oed yn dewis ymgysylltu â llyfrau a darllen er mwynhad yn gynyddol. Mae llawer o ddisgyblion yn siarad yn frwdfrydig am y llyfrau y maent wedi'u darllen a'u hoffi, gan gyfeirio'n aml at hoff awduron, plotiau a chymeriadau.

- Mae ystafelloedd dosbarth a mannau sy'n cael eu rhannu yn cynnwys ardaloedd darllen deniadol sydd ag adnoddau da, y mae disgyblion yn eu defnyddio'n hyderus ac â phwrpas. Mae'r ysgol yn cynnwys disgyblion mewn nodi testunau ar gyfer yr ardaloedd hyn, gan helpu i sicrhau eu bod o ddiddordeb iddynt ac yn adlewyrchu eu bywydau a'u profiadau.

- Ar draws yr ysgol, mae cyflwyno testunau uchelgeisiol, amrywiol ac amlieithog mewn modd pwrpasol a thra ystyriol yn helpu disgyblion i archwilio ystod eang o awduron, genres a themâu yn llwyddiannus.

- Mae dysgu proffesiynol gwerthfawr wedi cryfhau hyder a chysondeb staff mewn addysgu darllen a nodi'r camau nesaf yn natblygiad medrau darllen disgyblion.

- Mae dulliau sydd wedi'u cynllunio'n ofalus ar gyfer addysgu a chefnogi darllen yn helpu'r rhan fwyaf o ddisgyblion i wneud cynnydd cadarn wrth iddynt symud trwy'r ysgol. Mae darllen dan arweiniad, sesiynau ffoneg a thestunau dosbarth a rennir bob dydd yn helpu i ddatblygu medrau darllen disgyblion yn dda a chynyddu eu cariad at ddarllen.

## Sicrhau bod yr holl athrawon yn cynllunio profiadau sy'n galluogi pob disgybl i wneud y cynnydd y gallant ei wneud

- Trwy'r ysgol gyfan, mae awyrgylch cadarnhaol a chynhyrchiol lle mae disgyblion o bob oed yn ymgysylltu â'r dysgu'n hapus ac yn ddiwyd.

- Mae'r cwricwlwm yn berthnasol ac yn bwrpasol. Mae adolygiad diweddar o'r cwricwlwm wedi helpu i sicrhau dilyniant gwell trwy'r ysgol gyfan, gyda chyfleoedd gwell i ddisgyblion greu cysylltiadau ar draws y meysydd dysgu a chymhwyso eu medrau mewn cyd-destunau ystyrlon.

- Mae athrawon yn cynllunio gweithgareddau sy'n cysylltu'n dda â bywydau, profiadau a diddordebau disgyblion. Mae hyn yn helpu'r rhan fwyaf o ddisgyblion i fanteisio ar eu dysgu'n rhwydd ac yn llawn brwdfrydedd.

- Mae'r rhan fwyaf o athrawon yn adnabod eu disgyblion yn dda ac yn cynllunio dysgu sy'n bodloni eu hanghenion unigol yn addas. Mae athrawon yn dod yn fwyfwy hyderus wrth addasu eu dulliau addysgu, eu hadnoddau a'u bwriadau dysgu i gyd-fynd ag anghenion y disgyblion yn eu dosbarthiadau yn fwy cywir.

- Yn nosbarthiadau'r cyfleuster addysgu arbenigol, mae staff yn defnyddio ystod eang o weithgareddau dysgu ymarferol yn fedrus ac yn effeithiol. Mae hyn yn eu helpu i fodloni ystod eang a chymhleth o anghenion disgyblion yn llwyddiannus.

- Mae dull cadarn o asesu sy'n helpu arweinwyr a staff i nodi anghenion disgyblion a darparu cymorth ychwanegol gwerthfawr, yn ôl yr angen.

- Mae arweinwyr yn cynllunio dysgu proffesiynol ar gyfer staff yn strategol i gyd-fynd ag anghenion datblygu unigol ac ysgol gyfan. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar ddull yr ysgol o gryfhau annibyniaeth disgyblion. Mae llawer o ddisgyblion yn

gwybod pa strategaethau i'w defnyddio pan fyddant yn cael trafferth ac yn dod yn llai dibynnol ar oedolion i'w helpu.

- Bu'r ysgol yn rhagweithiol wrth ddatblygu'r amgylchedd dysgu i gefnogi dysgu ac annibyniaeth disgyblion yn well. Mae waliau dysgu ac adnoddau perthnasol, sydd ar gael yn rhwydd, yn helpu disgyblion o bob oed i ddechrau gwneud penderfyniadau drostynt eu hunain ynghylch y ffordd orau i symud eu dysgu ymlaen.

- Mae'r rhan fwyaf o'r staff yn rhoi adborth amserol a defnyddiol i ddisgyblion sy'n eu galluogi i fynd i'r afael â chamsyniadau, cywiro gwallau a chadarnhau eu dealltwriaeth. Mewn llawer o achosion, mae disgyblion yn ymateb yn adeiladol i adborth ysgrifenedig, gan ei ddefnyddio i wella eu gwaith ac esbonio eu meddwl. Mae cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion fyfyrio ar eu dysgu, a dysgu eu cyfoedion, yn ystod gwersi.

Gellir dod o hyd i adroddiad arolygu craidd diweddaraf yr ysgol a rhagor o wybodaeth am broses a phwrpas ymweliadau interim ar ein gwefan:
http://www.estyn.llyw.cymru/darparwr/6702017

Yn gywir

LMiles.

**Liz Miles**
Cyfarwyddwr Cynorthwyol